

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Prosiect  
Trawsnewid ADY Canolbarth y De 2019/2020**  
**Strategaeth Cyfathrebu Prosiect Trawsnewid ADY Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Morgannwg)**



## **1. Cyflwyniad**

### **1.1 Nod**

Amlinellu'r strategaeth cyfathrebu ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY Rhanbarthol Canolbarth y De 2019/2020 ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Nodau'r strategaeth cyfathrebu yw:

- pennu amcanion ac amserlenni (creu llinellau amser, calendr digwyddiadau a blaenoriaethu ymgyrchoedd);
- penderfynu ar negeseuon allweddol a chyfryngau cyflwyno;
- nodi rhanddeiliaid y Prosiect, sut i'w cyrraedd a sicrhau bod y negeseuon cywir yn cael eu cyfleu i'r bobl iawn ar yr adeg iawn;
- nodi deunyddiau allweddol i'w paratoi a phenderfynu ar yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer staff a deunyddiau, a phenodi tasgau unigol.

Mae'r cynllun cyfathrebu yn hyblyg a bydd yn cael ei adolygu ar adegau allweddol i sicrhau yr ymatebir yn briodol i unrhyw newidiadau i gyflawni gweithredoedd yn y cynllun gweithredu, newidiadau yng nghanyfyddiad rhanddeiliaid a newidiadau mewn sefydliadau partner.

### **1.2 Cynulleidfa Fwriadedig**

- Bwrdd Prosiect Trawsnewid ADY Canolbarth y De
- Timau Cyfathrebu Awdurdod Lleol
- Sefydliadau Partner
- Grwpiau Rhanddeiliaid

### **1.3 Cefndir**

Cafodd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Llun, 12 Rhagfyr 2016. Ar 12 Rhagfyr 2017, cymeradwywyd y Bil, ac yn ddiweddarach, derbyniodd Gydsyniad Brenhinol i ddod yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r Ddeddf wedi creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r ffordd y caiff darpariaeth dysgu ychwanegol ei chynllunio a'i darparu. Bydd hyn yn digwydd drwy ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran canfod anghenion yn gynnar, sicrhau bod

gweithdrefnau cymorth a monitro effeithiol ar waith ac addasu ymyrraethau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyflawni'r amcanion disgwylidig.

Er mwyn sicrhau bod y system newydd yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus ac yn gyson, mae Llywodraeth Cymru yn helpu gwasanaethau i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd o'u blaenau ac i ddatblygu arferion gwaith amlasiantaethol a thraws-sector agosach. Mae hyn yn cynnwys y Grant Trawsnewid ADY i gefnogi partneriaid cyflenwi (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y Consortiwm, SABau a Byrddau Iechyd Lleol) i baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd. Trwy'r grant yma, mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Ranbarth Canolbarth y De i sicrhau a chefnogi cyflawni targedau yn llwyddiannus, fel y'u gosodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd bwrdd prosiect a ffrydiau gwaith Trawsnewid ADY Canolbarth y De eu ffurfio ym mis Medi 2018 i gwblhau gwaith a gafodd ei amlinellu yng Nghynllun Gweithredu Canolbarth y De 2018/2019. Dyma oedd 'cyfnod un' y Prosiect. Mae cyfnod dau'r Prosiect wedi cychwyn, a dyfarnwyd cyllid o £949,656 i ranbarth Canolbarth y De gan Lywodraeth Cymru i roi targedau newydd ar waith sydd wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu 2019/20. Amcan y manylir arno yn y cynllun yma yw: datblygu cynllun cyfathrebu sy'n hysbysu'r holl randdeiliaid o'r newidiadau arfaethedig, cyfleoedd datblygu proffesiynol a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20

## 2. Nodau ac Amcanion

Prif amcan polisi Llywodraeth Cymru yw creu fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi plant a phobl ifainc 0-25 oed sydd ag ADY mewn ysgolion ac AB trwy Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'n rhan o raglen ehangach i drawsnewid cymorth i ddisgyblion/myfyrwyr sydd ag ADY yng Nghymru.

Felly, yr amcanion cyfathrebu mabwysiedig yw:

- Codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg trwy negeseuon a gweithgareddau ymgysylltu clir, cyson a chywir gyda'r holl randdeiliaid;
- Sicrhau bod rhanddeiliaid a'r gynulleidfa darged yn ranbarth Canolbarth y De yn deall pwrpas y Ddeddf a'r rhaglen drawsnewid ehangach trwy negeseuon clir a chyfathrebiadau wedi'u targedu ar gamau allweddol;
- Rheoli disgwyliadau, pryderon a chamdybiaethau ynghylch yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu i randdeiliaid a phawb sy'n ymwneud â'r system ADY newydd;
- Cefnogi Awdurdodau Lleol Canolbarth y De, Sefydliadau Addysg Bellach, Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid i fod yn barod ar gyfer y Ddeddf ADY;
- Cefnogi rhanddeiliaid i gymryd cyfrifoldeb dros gyflawni'r trawsnewidiad trwy rannu negeseuon a deunyddiau yn gyson â'u cynulleidfaoedd perthnasol ac egluro'n glir unrhyw ddyletswyddau neu gyfrifoldebau sydd ganddyn nhw o dan y Ddeddf ar gyfer cyflawni agweddau ar y system ADY wedi'i thrawsnewid;
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn effro i'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sy'n digwydd yn y ranbarth sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Canolbarth y De 19/20 yn benodol mewn perthynas â Chyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

## 3. Negeseuon Allweddol

- Bydd y Ddeddf yn ailwampio'r system yn llwyr ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY, gan effeithio ar bron pob ystafell ddosbarth yng Nghymru
- Bydd y Ddeddf yn gosod y disgyblion/myfyrwyr wrth galon y broses honno a bydd yn gwneud y system yn llawer symlach ac yn llai gwrthwynebus i'r rhai sy'n rhan ohoni - mae hon yn gŵyn gyffredin ar hyn o bryd.
- Mae'r Ddeddf yn rhan o raglen ehangach gyda'r nod o drawsnewid y system bresennol i sicrhau dyfodol llwyddiannus i bob disgybl/myfyriwr

- Bydd bron i chwarter o'r holl blant yng Nghymru â rhyw fath o Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod eu blynyddoedd cynnar neu'u haddysg.
- Mae'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer eu cefnogi yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl - cydnabyddir yn eang nad yw hwn bellach yn addas at y diben
- Mae partneriaid yn rhanbarth Canolbarth y De yn gweithio'n rhanbarthol ac yn ymgymryd â chyfleoedd datblygu proffesiynol a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i gefnogi gweithrediad y Ddeddf
- Bydd y Ddeddf yn:
  - disodli'r termau 'anghenion dysgu arbennig' ac 'anawsterau a/neu anabledau dysgu' gyda'r term newydd yma - Anghenion Dysgu Ychwanegol.
  - creu un system deddfwriaethol i gefnogi plant a phobl ifainc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY, yn lle'r ddwy system ar wahân sy'n gweithredu ar hyn o bryd
  - cael gwared ar y system ddatganiadau a chreu cynllun sengl (y cynllun datblygu unigol) i ddisodli'r ystod bresennol o gynlluniau Anghenion Addysgol Arbennig / Anawsterau a/neu Anabledau Dysgu statudol ac anstatudol ar gyfer disgyblion/myfyrwyr, gan sicrhau tegwch hawliau waeth beth yw lefel angen y disgybl/myfyriwr na'r lleoliad addysg mae'n ei fynychu.
  - Os oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg, rhaid cofnodi hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.
  - sicrhau bod barn disgyblion/myfyrwyr a'u rhieni bob amser yn cael eu hystyried trwy gydol y broses gynllunio i sicrhau bod pawb yn ei ystyried yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda nhw yn hytrach nag iddyn nhw a bod y plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd popeth.
  - annog gwell cydweithredu rhwng asiantaethau, fel bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei rhoi ar waith.

#### 4. Rhanddeiliaid

Isod mae rhestr o gynulleidfaoedd:

- Aelodau/gwleidyddion y Cynulliad
- Gweithwyr proffesiynol byd addysg
- System addysg ehangach (consortia, Cyngor y Gweithlu Addysg ac ati)
- Undebau - gan gynnwys undebau addysgu
- Llywodraeth Leol
- Trydydd sector, gan gynnwys elusennau, grwpiau lobbio a diddordeb arbennig
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Sector cyfreithiol
- Staff sefydliadau partner
- Plant / Pobl ifainc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion ac addysg bellach.
- Rhieni/gwarcheidwaid plant a phobl ifainc hyd at 25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 5. Dull

Yn rhan o'r amcanion sydd wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu 2019/2020, mae'r holl Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Sefydliadau Addysg Bellach wedi cael y dasg o greu cynlluniau cyfathrebu sy'n benodol i'w sefydliadau. Mae'r cerrig milltir a'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu rhanbarthol wedi cael eu defnyddio i lywio'r cynlluniau yma. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu defnyddio yn sylfaen ar gyfer darparu cyfathrebu rhagweithiol ar gyfer rhanddeiliaid ynghylch y gweithgaredd sy'n digwydd yn y rhanbarth.

## 6. Sianeli Cyfathrebu

Dydy hon ddim yn rhestr gynhwysfawr, ond mae'r prif sianeli yn cynnwys:

Sianel	Nodiadau
<b>Gweithdai a digwyddiadau</b>	Bydd cyflwyniadau a gweithdai mewn digwyddiadau/fforymau penodol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn caniatáu lledaenu negeseuon cyson. Trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd rhanbarthol ADY penodol gyda chynulleidfaoedd targed
<b>Gwefan</b>	Gwefannau'r Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner
<b>Cyfrngau cymdeithasol</b>	Er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y rhanbarth, bydd modd defnyddio cyfrifon Twitter a Facebook yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner i ddarparu negeseuon ynghylch gweithgarwch sy'n digwydd yn rhanbarth Canolbarth y De ac unrhyw hanesion o lwyddiant. Hyrwyddo'r hashnod #ALNACTREADY
<b>Adnoddau</b>	Gan gynnwys fideos, cynnwys cyfrngau cymdeithasol, cyhoeddiadau
<b>Cylchlythron</b>	Defnyddio sianeli sefydledig Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gyfathrebu ag ysgolion, athrawon ac ymarferwyr byd addysg.
<b>Datganiadau ysgrifenedig a llafar</b>	Rhyddhau'r rhain ar adegau allweddol
<b>Blogiau</b>	Defnyddio blogiau sydd wedi'u hanelu at ymarferwyr byd addysg a gwasanaethau iechyd/cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth / ysgogi trafodaeth

## 7. Amserlenni

Bydd y strategaeth cyfathrebu yma'n cael ei chyflawni yn unol â chynllun gweithredu Canolbarth y De ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020 (01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020).

## 8. Cyllid ac Adnoddau

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i ranbarth Canolbarth y De mewn perthynas â Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019/20.

Ym mis Ebrill 2019, cafodd £949,656 ei ddyfarnu i ranbarth Canolbarth y De i sicrhau cyflawni'r targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod a'u bod nhw'n ymwneud â'r cyfnod 01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020.

Yr Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Sefydliadau Addysg Bellach sy'n gyfrifol am gyflawni eu cynlluniau cyfathrebu sefydliadol unigol. Bydd cyflawniad llwyddiannus y cynlluniau yma'n cael ei fonitro gan Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Canolbarth y De a Swyddog Prosiect ADY Canolbarth y De.

## **9. Mesur a Gwerthuso**

Bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 19/20 i lywio gwaith yn y dyfodol.

- Cyfryngau cymdeithasol - Cyfanswm yr ymrwymadau a'r cyrhaeddiad
- Adnoddau a chyhoeddiadau ar-lein - dadansoddeg
- Nifer y rhanddeiliaid sy'n rhannu adnoddau a negeseuon

## **10. Amserlen Cyfathrebu**

Cyfeiriwch at Atodiadau 1-3 am amserlen gyfathrebu ALLau unigol.

**Atodiad 1- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

<b>Gwybodaeth i'w darparu (Beth)</b>	<b>Neges (Beth)</b>	<b>Derbynydd/Derbynyddion (Pwy)</b>	<b>Hyfforddiant</b>	<b>Amserlen Dros Dro/ Amllder/ Dyddiad Darparu (Pryd)</b>	<b>Dull/Dulliau Darparu Arfaethedig (Sut)</b>
Gwybodaeth Hyfforddiant Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar	Lle a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal, pwysigrwydd mynychu a sut i archebu lle ar y cyrsiau hyfforddi  Cyfathrebu llwyddiant y cyrsiau hyfforddi	Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar Iechyd Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol Sefydliadau AB Ysgol Pawb	Gweithredu'r Cod	Gwanwyn 2020	Gweithdai a digwyddiadau  Y We Cyfryngau Cymdeithasol  Adnoddau Datganiadau ysgrifenedig a llafar
			Dynodiad cynnar ac atal AAY	Hydref 2019	
			Ymarfer wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Dulliau'r ysgol gyfan	Hydref 2019	
			Hyfforddiant CDU, ysgrifennu ac adolygu	Gwanwyn 2020	
			Cyfryngu a datrys	Gwanwyn 2020	
Pontio Effeithiol	Gwanwyn 2020				
	Amserlenni sesiynau hyfforddiant rhieni/gofalwyr y blynyddoedd cynnar a'r adnoddau sydd ar gael	Rhieni/Gofalwyr	Codi ymwybyddiaeth	Gwanwyn 2020	Gweithdai a digwyddiadau Y We Cyfryngau Cymdeithasol Adnoddau Datganiadau ysgrifenedig a llafar
Swydd Ddisgrifiad y Blynyddoedd Cynnar	Argaeledd Swydd Ddisgrifiad Blynyddoedd Cynnar Canolbarth y De	Awdurdodau Lleol	x	Haf 2019	E-bost
Hyfforddiant Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol	Lle a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal, pwysigrwydd mynychu a sut i archebu lle ar y cyrsiau hyfforddi	Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol	Goblygiadau'r Ddeddf	Haf 2019	E-bost Offer cyfathrebu mewnol yr awdurdod lleol
			Dulliau ymarfer sydd wedi eu canoli ar yr unigolyn	Hydref 2019	
			Codi ymwybyddiaeth generig (Eleisha)	Gwanwyn 2020	
Gwybodaeth Hyfforddiant Cynhwysiant ar gyfer Staff	Lle a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal, pwysigrwydd mynychu a sut i archebu lle ar y cyrsiau hyfforddi	Staff Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol	Diwygiadau cwricwlaidd ehangach	Haf 2019	E-bost Offer cyfathrebu mewnol yr awdurdod lleol
			Rôl y swyddogion cynhwysiant wrth gefnogi hunanwerthusiad yr ysgol ar gyfer AAY	Hydref 2019	
			Datblygiadau mewn Ysgolion	Gwanwyn 2020	

Gwybodaeth Hyfforddiant Gwella Ysgol	Lle a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal, pwysigrwydd mynychu a sut i archebu lle ar y cyrsiau hyfforddi	Timau Gwella'r Ysgol	Gwerthuso ansawdd Arweiniad AAY a darpariaeth mewn ysgolion	Gwanwyn 2020	E-bost Offer cyfathrebu mewnol yr awdurdod lleol
			Ymarfer wedi ei ganoli ar y person. Dull yr ysgol gyfan	Haf 2019 ?	
			Cefnogi ysgolion i ddatblygu arweiniad lefel ganol ar gyfer AAY	Hydref 2019	
			Cefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y Ddeddf	Haf 2019	
Gwybodaeth Hyfforddiant Ymgynghorydd Her	Lle a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal, pwysigrwydd mynychu a sut i archebu lle ar y cyrsiau hyfforddi	Ymgynghorwyr Her	Cefnogaeth a her berthnasol i ysgolion	Haf 2020	E-bost
Hyfforddiant Iechyd	Cyfathrebu digwyddiadau hyfforddiant iechyd	Staff y Bwrdd Iechyd	Codi ymwybyddiaeth gyffredinol	Haf 2019	E-bost  Systemau Archebu Hyfforddiant
			Hyfforddiant datrys anghydfod	Haf 2019	
			Dulliau ymarfer sydd wedi'u canoli ar yr unigolyn	Hydref 2019	
			Hyfforddiant CDU	Gwanwyn 2020	
Gwybodaeth Hyfforddiant AB	Cyfathrebu digwyddiadau hyfforddiant SAB	Staff Sefydliad Addysg Bellach	Codi ymwybyddiaeth ALNET (Eleisha)	Gwanwyn 2020	E-bost Systemau Archebu Hyfforddiant
			Ymarfer wedi ei ganoli ar yr unigolyn	Haf 2019	
			Ysgrifennu ac adolygu CDU	Hydref 2019	
			AAY - Digwyddiad Uchel, cymhlethdod isel	Haf 2019	
			Osgoi anghydfodau a datrys anghydfod	Haf 2019	
			Ymyriadau effeithiol	Gwanwyn 2020	
Gwybodaeth Hyfforddiant Ysgol	Argaeledd cyrsiau hyfforddi ysgol:  Hyfforddiant rhanbarthol a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y rhaglen Arweiniol AAY ar gyfer y Clwstwr  Arweinwyr Clwstwr i ddehongli	Ysgolion Awdurdodau Lleol	Diffinio AAY	Gwanwyn 2020	Fforymau CAAY Cyfarfodydd Penaethiaid Rhanbarthol Diwrnodau HMS ysgolion / cyfarfodydd ysgolion Gweithdai a digwyddiadau
			Darpariaeth Dysgu Ychwanegol	Gwanwyn 2020	
			Mapio darpariaeth	Hydref 2019	
			Hyfforddiant CDU, ysgrifennu ac adolygu	Hydref 2019	
			Cyfryngu a datrys anghydfod - adnodd hyfforddi'r hyfforddwr	Hydref 2019	

	gwybodaeth i Gydlynwyr AAY wedi i Arweinwyr AAY y Clwstwr fynychu sesiynau hyfforddi ag Arweinydd Trawsnewid AAY Canolbarth y De.		Hyfforddiant Datrys Anghydfod	Gwanwyn 2020	
			Ymarfer wedi'i ganoli ar yr unigolyn. Dulliau gweithio ar gyfer yr ysgol gyfan	Haf 2019	
			Hawl i apelio	Hydref 2019	
			Datblygiad Arweinyddiaeth ar gyfer Cydlynwyr AAY	Hydref 2019	
			Cyngor Cyfreithiol	Gwanwyn 2020	
			Codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff prif ffrwd (Eleisha)	Gwanwyn 2020	
			Sesiynau briffio penaethiaid	Gwanwyn 2020	
Gwybodaeth Hyfforddiant Llywodraethwyr	Hybu rhaglen hyfforddi consortiwm canolbarth y de	Llywodraethwyr	Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer arweiniad a darpariaeth AAY	Hydref 2019	E-byst System archebu canolbarth y de
			Hyfforddiant ar gyfer enwau llywodraethwr AAY	Gwanwyn 2020	
			Codi ymwybyddiaeth gyffredinol (Eleisha)	Gwanwyn 2020	
Gwybodaeth i Rieni/Gofalwyr	Argaeledd canllawiau rhieni/gofalwyr	Rhieni/Gofalwyr Awdurdodau Lleol	X	Hydref 2019	Gweithdai a digwyddiadau Y We
	Argaeledd cyfleoedd codi ymwybyddiaeth gyffredinol i rieni/gofalwyr	Rhieni/Gofalwyr	Y System AAY	Gwanwyn 2020	Cyfrngau Cymdeithasol Adnoddau Datganiadau ysgrifenedig a llafar E-byst
Hyfforddiant Synhwyraidd	Argaeledd cyrsiau hyfforddi ar gyfer staff synhwyraidd	Ysgolion Awdurdodau Lleol	BSL, Braille, HI/VI	Haf 2019	E-byst
Cyngor ac Arweiniad	Cyngor, arweiniad a gwybodaeth eiriolaeth ar gael ar wefannau'r Awdurdod Lleol.	Rhieni/Gofalwyr Awdurdodau Lleol	X	Gwanwyn 2020	Y We Pamffledi Adroddiadau
	Argaeledd pamffledi cyngor ac arweiniad	Byrddau Iechyd Sefydliadau Addysg bellach Ysgolion	X	Gwanwyn 2020	
	Argaeledd gwaith papur sydd wedi ei safoni		X	Gwanwyn 2020	
Cyfrwng Cymraeg	Cyfathrebu argaeledd cyfeiriadur ar gyfer digwyddiadau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg.	Ysgolion Awdurdodau Lleol	X	Hydref 2019	Hydref 2019



	Dogfen wedi ei rhannu'n manylu'r holl adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael yn y rhanbarth				Hydref 2019
--	---	--	--	--	-------------